



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Diogelu'ch Gwartheg rhag Clefydau



Wrth brynu gwartheg, mae wastad perygl i chi ddod â chlefyd i'ch fferm. Holwch am hanes yr anifail a'r fuches y daeth ohoni **cyn i prynu'r anifail**. Bydd hynny'n eich helpu i ddeall a oes risg, ac os oes, sut i'w reoli.

## Effaith dod â chlefyd i'ch fferm

Gall clefydau heintus fel TB Gwartheg, Dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg (BVD), Rhinotracheitis Heintus (IBR), Clefyd Johne a Leptospirosis effeithio ar eich buches a'ch busnes mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cyfyngu ar symudiadau'ch anifeiliaid
- Llai o gynhyrchiant a cholledion ariannol
- Anifeiliaid yn dioddef ac yn marw
- Difa anifeiliaid heintiedig
- Colli llinachau magu da
- Y perygl posibl i iechyd pobl

## Masnachu ar sail risg – holi cyn prynu

Mae Masnachu ar sail Risg wedi helpu i ddileu TB Gwartheg yn Awstralia ac mae'n cyfrannu at ddileu'r clefyd yn Seland Newydd. Mae Masnachu ar sail Risg yn rhan bwysig hefyd o gynllun cenedlaethol Awstralia i gael gwared ar glefyd Johne.

I Fasnachu ar sail Risg lwyddo, mae bwysig bod y gwerthwr yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r prynwr er mwyn iddo allu pwysu a mesur a oes perygl i'r gwartheg newydd ddod â chlefyd i'r fferm. Trwy holi yn y man gwerthu, bydd y prynwr yn gallu penderfynu'n ddoeth a chymryd y rhagofalon sydd eu hangen wrth ddod â'r anifeiliaid newydd i'r fferm.

## Pa gamau gallwch chi eu cymryd?

Er mwyn lleihau'r risg felly o heintio'ch buches, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r gwerthwr neu'r prynwr cyn prynu'r anifail:

- Ydy'r fuches y mae'r anifail yn dod ohoni wedi'i chymeradwy fel buches heb glefyd heintus? Mae

cynlluniau cymeradwyo o'r fath yn bod ar gyfer BVD, IBR a Leptospirosis ac mae cynllun clefyd Johne yn categoreiddio buchesi yn ôl y risg o werthu anifeiliaid heintiedig.

- Ydy'r anifail wedi cael prawf clir ar gyfer unrhyw glefyd? Os ydy, pryd a sut?
- Ydy'r anifail wedi cael ei frechu rhag unrhyw glefyd? Mae brechlyn ar gael ar gyfer BVD, IBR a Leptospirosis.

## Ynysu, profi a/neu brechu

Dylech gyntuno â'ch milfeddyg ar eich trefniadau ar gyfer cyflwyno gwartheg newydd i'ch buches fel rhan o gynllun iechyd eich buches. Mae hi wastad yn syniad da cadw anifail newydd ar wahân mewn man ynysu addas – lle na all yr anifail newydd ddod i gysylltiad corfforol â da byw eraill. Gofalwch hefyd nad oes gwartheg eraill yn rhannu'r un aer â'r anifail newydd na'u bod yn gallu dod i gysylltiad â'i dail a'i dd r. Cadwch olwg bob dydd ar yr anifail newydd am arwyddion salwch.

Mae mesurau eraill y gallwch eu cymryd:

- Yn ystod y cyfnod ynysu, gallwch gynnal prawf ar yr anifail a/neu ei frechu rhag BVD, IBR neu Leptospirosis. Bydd gofyn i chi amddiffyn yr anifail newydd rhag ei heintio gan glefyd sydd eisoes yn eich buches. Trafodwch hyn â'ch milfeddyg ymlaen llaw.
- ytunwch ar raglen brofion gyda'ch milfeddyg. Dylech roi profion gwaed ar gyfer clefyd Johne i anifeiliaid aeddfed. Hefyd, mae'n arfer da cynnal prawf TB ar anifail wedi iddo gyrraedd os nad yw wedi cael prawf yn ddiweddar.

- Godrwch anifeiliaid newydd ar wahân, gan ddefnyddio offer godro cludadwy os medrwch. Os nad yw hyn yn bosibl, godrwch y gwartheg yn y parlwr ar ôl i chi odro gweddill y gwartheg ac **ar ôl** iddyn nhw adael y parlwr

Cofiwch y gall clefyd fynd dwy ffordd. Gall anifeiliaid newydd ddod â chlefyd i'ch buches ond gall eich gwartheg chi drosglwyddo clefyd i'r stoc newydd hefyd.

## Beth yw manteision Masnachu ar sail Risg?

- Mae'n helpu i ddiogelu'ch gwartheg chi a buchesi'ch cymdogion rhag clefydau
- Mae'n lleihau'r perygl i chi gyflwyno clefydau i ardaloedd newydd
- Mae'n helpu i gynnal buchesi cynhyrchiol ac iach
- Bydd yn lleihau costau trin clefydau yn y pen draw.

Cydweithiwch â'ch milfeddyg i roi cynllun iechyd ar waith. Os oes gennych unrhyw fath o amheumon ynghylch iechyd y gwartheg rydych wedi'u prynu, holwch eich milfeddyg.

